Grŵp Llandrillo Menai

Polisi Diogelu

'Diogelu, Cyfrifoldeb Pawb'

Cymeradwywyd gan CSSC: 13.11.2019

Polisi Diogelu
'Diogelu, Cyfrifoldeb Pawb'

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i hyrwyddo a darparu amgylchedd diogel a chynhaliol lle mae'r holl ddysgwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial academaidd.

1.2 Mae'r Grŵp yn cydnabod yn llawn ei ddyletswydd tuag at ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Y Polisi Diogelu Plant ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed "Diogelu - Cyfrifoldeb Pawb" yw sail yr arferion a'r gweithdrefnau y mae colegau'r Grŵp yn eu defnyddio i roi cyfleoedd a gwasanaethau i wella profiadau'r dysgwyr ac ar yr un pryd cynnal amgylchedd ddysgu ddiogel. Mae pob un o safleoedd y coleg yn ymdrechu i feithrin amgylched agored, diogel a gofalgar ble gall unrhyw blentyn neu oedolyn bregus sy'n dymuno trafod pryderon a materion yn ymwneud â'u bywydau wneud hynny mewn awyrgylch cefnogol, heb gael eu beirniadu.

1.3 Nod y cwrs yw lleihau'r tebygolrwydd o anafiadau cyhyrysgerbydol a achosir drwy godi a chario esgeulus a sicrhau diogelwch y rhai sydd angen cymorth

1.4 Bydd y Coleg bob amser, yn gweithio o fewn canllawiau Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a'r Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a fabwysiadwyd gan Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru sydd yn ymgorffori'r holl bŵer a'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol.

1.5 Cyhoeddwyd strategaeth CONTEST gan Lywodraeth y DU ac mae'n rhan o'r Ddeddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch (GDaD) gyffredinol a ddaeth yn gyfraith ym mis Gorffennaf 2015 Mae Adran 26 y Ddeddf GDaD yn gosod dyletswydd ar 'awdurdodau penodol' wrth ymarfer eu dyletswyddau i roi `ystyriaeth briodol i'r angen am atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth''. Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymgorffori'r cyfeiriad o atal pryderon yn y broses cyfeirio diogelu. Mae Strategaeth Prevent Grŵp Llandrillo Menai yn amlinellu cwmpas y dull seiliedig ar risg o weithredu gyda'r Ddyletswydd Prevent a ddaeth i rym ym mis Medi 2015.

1.6 Bydd yn penodi aelodau dynodedig o staff i gydlynu ei drefniadaethau amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ar draws pob safle a darpariaeth. Bydd y tîm hwn o dan reolaeth weithredol Pennaeth Cynorthwyol, Gwasanaethau Dysgwyr, a fydd yn cyfeirio a chysylltu â'r asiantaethau priodol. Bydd cyfrifoldeb uwch reolaeth yn gorwedd gyda Phenaethiaid y coleg.

Mae'r polisi trosfwaol hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer canllawiau, gweithdrefnau a pholisïau arbenigol y Coleg o ran Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed yn eu hystyr ehangaf Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datgelu cofnodion troseddol (staff a dysgwyr)
- Polisi i ddisgyblion 14-16 ym ymwneud â dosbarthiadau a darpariaeth y tu allan i oriau academaidd arferol.
- Llety Myfyrwyr ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol a Chenedlaethol gan gynnwys protocolau ar gyfer asiantaethau statudol eraill

- Canllawiau ar ymweliadau allanol ac ymweliadau preswyl.
- Camddefnyddio sylweddau ac alcohol.
- Trefn i'w dilyn ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed Sgiliau Byw Annibynnol– Canllawiau ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Canllawiau TGC'h
- Polisi ynghylch Perthynas Gydsyniol
- Cod Ymddygiad y Staff

2 Cwmpas

2.1 Mae gan bawb gyfrifoldeb dros Ddiogelu ac oherwydd hynny, mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod staff yn cynnwys uwch reolwyr, bwrdd y llywodraethwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth ac i unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y coleg ac â chysylltiad rheolaidd â dysgwyr.

2.2. Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnwys datgeliadau gan drydydd parti. Prif gyfrifoldeb staff ydy dilyn y gweithgareddau y cytunwyd arnynt a bod yn atebol am eu gweithgareddau. Nid cyfrifoldeb staff ydy ymchwylio i bryderon, honiadau na datgeliadau. Bydd y Coleg yn trosglwyddo pryderon neu honiadau o gam drin ar unwaith i'r asiantaeth briodol.

2.3 Mae'r Coleg yn gweithredu o fewn prif egwyddorion Deddf Plant 1989 sy'n rheoli gwaith gyda Phlant fel a ganlyn:

2.3.1 Prif ystyriaeth i Lles Plant

Ystyrif lles plant yn brif ysytyriaeth gan y Coleg. Mae diogelu a hyrwyddo eu lles yn flaenoriaeth ac ynghlwm a phrif bwrpas y gwaith. Wrth wneud penderfyniadau am ddyfodol plant ystyrir hefyd eu dymuniadau a'u teimladau yn ogystal ag unrhyw ofynion sy'n codi mewn perhtynas â hil, diwylliant, crefydd, anabledd ac iaith. Cymerir pob gofal rhesymol i sicrhau diogelwch pob myfyriwr o dan 18 oed sydd unrhyw un o gampysau'r coleg neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n ymwneud â'r Coleg.

2.3.2 Cyrififoldeb Rhieni

Mae Coleg yn credu mai teuluoedd neu eraill â chyfrifoldeb rhieni sydd bennaf gyrfifol am edrych ar ôl plant. Rhieni sydd â chyfrifoldeb sylfaenol hyd yn oed pan fydd testun dyfarniad llys am blentyn. Oherwydd hyn bydd y Coleg yn trafod ac yn hysbysu rhieni ac eraill â chyfrifoldeb rhieni o fewn cyfyngiadau canllawiau'r drefn Diogelu Plant/ Amddiffyn Oedolion sy'n agored i niwed.

2.3.3 Partneriaethau

Mae'r Coleg yn hyrwyddo perthnasau gwaith da gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, ymddiriedolaethau iechyd, y gwasanaeth prawf, ysgolion, awdurdodau addysg, asiantaethau gwirfoddol ac eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Bydd Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd rôl arweiniol oherwydd eu cyfrifoldebau statudol. Bydd y Coleg yn sicrhau bod yr holl systemau diogelu plant mewnol ar waith a bod y staff yn gyfarwydd â nhw ac yn eu deall. Bydd y coleg yn gweithio mewn partneriaeth â phobl broffesiynol a'r prif asiantaethau ac yn eu cynorthwyo i warchod plant drwy gynnig gwybodaeth fanwl, gwasanaethau proffesiynol a chyfeirio pryderon neu wybodaeth am gam-drin neu esgeulustod.

2.3.4 Egwyddorion Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol a disgresiwn i gymryd camau i sicrhau fod oedolion agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a'u buddiannau yn cael eu cynrychioli. Bydd y dymuniadau a fynegir gan yr oedolyn agored i niwed yn hollbwysig yn y broses asesu

a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae yna ddyletswydd sylfaenol i gydbwyso hawl yr oedolyn am ymreolaeth gyda'u hangen i gael eu hamddiffyn.

2.4 Mae tri amcan penodol yn rhan o ddyletswydd Prevent:

2.4.1 Ymateb i her ideolegol terfysgaeth ac agweddau ar eithafiaeth, ynghyd â'r bygythiad o du rhai sy'n hyrwyddo'r safbwyntiau hyn.
2.4.2 Atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth a sicrhau eu bod yn derbyn y cyngor a'r gefnogaeth briodol: a
2.4.3 Gweithio gyda sectorau a sefydliadau i leihau'r risg o radicaleiddio

2.5 Bydd y Coleg yn gweithredu i amddiffyn ei fyfyrwyr rhag camdriniaeth, ecsploetiaeth neu hunan-niwed a bydd yn gweithio mewn cydweithrediad gydag asiantaethau eraill i sicrhau diogelwch a lles ei fyfyrwyr.

2.6 Mae gan y Coleg yr hawl i wrthod cofrestru unrhyw unigolyn sydd ag euogfarn am gam-drin oedolyn agored i niwed neu blentyn.

3. Diffiniad o'r termau

3.1 Plentyn

Drwy gydol y polisi hwn a threfniadaethau cysylltiedig, mae cyfeiriad at "blentyn", "plant" neu "bobl ifanc" yn golygu'r rhai o dan 18. Oedolyn yw rhywun 18 oed a throsodd. Mae oedolyn yn cyfeirio at unigolyn sydd 18 oed neu'n hŷn.

3.2 Oedolyn sy'n agored i niwed

Diffinnir oedolyn agored i niwed fel person dros 18 oed ac:

- yn derbyn rhyw fath o ofal iechyd
- Yn derbyn gwasanaeth neu yn cymryd rhan mewn gweithgaredd sydd wedi ei dargedu yn benodol at bobl ag anghenion cysylltiedig ag oedran, anableddau neu gyflyrau corfforol neu iechyd meddwl penodedig.
- mamau beichiog mewn gofal preswyl,
- Anghenion cysylltiedig ag oedran gan gynnwys anghenion cysylltiedig â breuder, salwch, anabledd neu allu meddyliol
- Rhai a wynebodd gamdriniaeth flaenorol , e.e. drwy drais domestig

Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)

3.3 Cam-drin

Gall rhywun gam-drin neu amddifadu plentyn neu oedolyn bregys trwy beri niwed iddyn nhw neu beidio gweithredu i atal niwed. Efallai bydd plentyn yn cael ei gam-drin o gan bobl maen nhw'n ddibynnol arnynt neu, yn llai aml, gan bobl ddieithr. Gall camdriniaeth fod yn fwriadol neu'n anfwriadol. Mae'r categorïau camdriniaeth yn cynnwys corfforol, emosiynol, seicolegol, rhywiol, esgeulustod neu ariannol. Gall y gamdriniaeth ddigwydd ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook, ffôn symudol neu e-bost.

3.3.1 Cam-drin Corfforol

Gall camdriniaeth gorfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn agored i niwed. Gall niwed corfforol hefyd

ddigwydd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau neu'n peri salwch i blentyn oedolyn sy'n agored i niwed maen nhw'n gofalu amdano. Gellir disgrifio'r sefyllfa hon fel salwch ffug neu wedi ei ysgogi gan ofalwr.

3.3.2 Cam-drin Emosiynol neu Seicolegol

Diffinnir cam-drin emosiynol fel camdriniaeth barhaus o blentyn fel ei fod yn arwain at sgil effeithiau difrifol ac effaith andwyol hirdymor ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Fe all olygu cyfleu'r teimlad i blentyn neu oedolyn bregus eu bod yn ddiwerth neu nad oes neb yn eu caru, yn dda i ddim neu ddim ond yn cael eu gwerthfawrogi am gwrdd ag anghenion person arall. Gall olygu rhoi disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu ddatblygiad ar blant/oedolion agored i niwed. Gall olygu achosi i blant/ oedolion agored i niwed yn aml i deimlo yn ofnus neu mewn perygl, neu ecsbloetio neu lygru plant/ oedolion agored i niwed. Mae peth lefel o gamdriniaeth emosiynol yn gysylltiedig â phob math o gamdriniaeth o blentyn/ oedolyn agored i niwed er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

3.3.3 Camdriniaeth rhywiol

Mae camdriniaeth rywiol yn golygu gorfodi neu gymell plentyn neu oedolyn agored i newid i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, prun ai eu bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, a chynnwys gweithredoedd treiddiol neu heb fod yn dreiddiol. Gallant gynnwys gweithgareddau di gyswllt megis cael plant/ oedolion agored i niwed i edrych ar, neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig neu edrych ar weithgareddau rhywiol neu annog plant/oedolion agored i niwed i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n amhriodol yn rhywiol.

3.3.4 Esgeulustod

Esgeulustod yw'r methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn/oedolyn agored i niwed, sydd yn debygol o arwain at amhariad difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn/ oedolyn agored i niwed. Gall olygu fod rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd, llety a dillad digonol, methu amddiffyn plentyn/ oedolyn agored i niwed rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethu sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol briodol.

Gall hefyd gynnwys esgeulustod, neu ddiffyg ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn/oedolyn agored i niwed.

(Diffiniadau gair am air o'r 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008' a chanllawiau Mewn Dwylo Diogel)

3.3.5 Eithafiaeth

Fe'i diffinnir yn Strategaeth Prevent 2011 fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch at wahanol gredoau a ffydd. Rydym hefyd yn cynnwys yn ein diffiniad ni o eithafiaeth y galw am farwolaeth aelodau'r lluoedd arfog, yn y wlad hon neu dramor.

3.3.6 Radicaleiddio

Mae'n cyfeirio at y broses lle mae person yn dod i gefnogi ideoleg o derfysgaeth ac eithafiaeth sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol.

3.3.7 Troseddau yn ymwneud â Therfysgaeth

Nid troseddau yn y ddeddfwriaeth derfysgaeth yw'r rhain, ond y rhai y bernir eu bod wedi cael eu cyflawni mewn perthynas â therfysgaeth.

(Diffiniadau o Ganllawiau Prevent Llywodraeth EM: i Gymru a Lloegr)

4 Atebolrwydd

Tra bod yr holl staff yn gyfrifol am weithredu Polisi a Gweithdrefnau Diogelu'r coleg mae yna swyddi dynodedig sydd yn atebol am sicrhau fod staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn glynu ar brotocolau arweiniad.

4.1 Mae gan y staff dynodedig wybodaeth arbenigol o faterion yn ymwneud â diogelu plant. Cyfeirir at y staff fel Swyddogion Diogelu. Gall Swyddogion Diogelu gynnig cyngor i ddysgwyr a staff am bryderon yn ymwneud â lles a diogelu. Pob dysgwr

Mae Swyddogion Diogelu yn cynnig y gefnogaeth isod: Maen nhw yno i wrando ar ddysgwyr, i gyfeirio fel y bo'n briodol a chynnig cyngor a chefnogaeth i staff ar faterion yn ymneud â diogelu, i adrodd am a chyfeirio dateliadau i Brif Swyddog Diogelu (PSD), ac yn gwybod sut i gyfeirion, wedi cael eu hyfforddi mewn materion diogelu a gwaith amlasiantaeth

4.1.1
4.1.2
4.1.3
4.1.4
4.1.5

Y Pennaeth, Gwasanaethau'r Dysgwyr ydy'r rheolwr dynodedig sy'n goruchwylio cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Diogelu Dynodedig ar draws Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr sy'n gweithredu fel Prif Swyddogion Diogelu yn eu colegau ac yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r gweithdrefnau diogelu yn eu colegau eu hunain. Cynigir cefnogaeth i bob dysgwr: addysg bellach, addysg uwch, addysg i oedolion yn y gymuned a dysgwyr seiliedig ar waith.

4.2 Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Ddysgwyr sydd hefyd yn gyfrifol am gyfeirio unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu i bennaeth y coleg perthnasol. Un o'r prif swyddogaethau ydy cymryd cyfrifoldeb dros godi ymwybyddiaeth ymhlith pob aelod o satdd o faterion yn ymwneud â lles plant a phobl ifanc yn y coleg.

Mae meysydd cyfrifoldeb eraill yn cynnwys:

- 4.2.1 Arolygu cyfeirio achosion o gamdriniaeth a amheuir neu honiadau i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol
- 4.2.2 Cynnig cyngor ac arweiniad ar gyfer staff eraill ar faterion yn ymwneud â diogelu
- 4.2.3 Cynnal cofnod cywir o unrhyw achos cyfeirio, cwyn neu bryder yn ymwneud ag amddiffyn plant (hyd yn oed pan na fo'r gwyn yn arwain at gyfeirio)
- 4.2.4 Sicrhau fod rhieni plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r Polisi Diogelu
- 4.2.5 Cydweithio a chysylltu â'r Awdurdodau Lleol a'r asiantaethau perthnasol
- 4.2.6 Sicrhau fod staff yn derbyn hyfforddiant sylfaenol mewn materion diogelu sydd yn addas ar gyfer eu rolau a'u bod yn ymwybodol o weithdrefnau'r coleg

4.3 Y Prif Weithredwr yw'r uwch reolwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelu wedi ei gefnogi gan Aelod etholedig o Fwrdd y Gorfforaeth.

4.4 Y Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol yw'r uwch reolwr dynodedig sydd â chyfrifoldeb am sicrhau fod y Grŵp yn cydymffurfio gyda gofynion recriwtio a dewis staff ac am sicrhau fod gweithdrefnau priodol yn eu lle i roi gwybod am a delio gyda honiadau o gamdriniaeth a niwed yn erbyn aelodau o staff fel rhan o'r polisi disgyblu staff.

4.5 Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau fod gan Grŵp Llandrillo-Menai bolisïau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle ar gyfer diogelu dysgwyr ac i sicrhau cydymffurfiad. Does gan Fwrdd y Gorfforaeth na llywodraethwyr unigol ddim rôl i ddelio gydag achosion unigol na'r hawl i wybod am fanylion achosion ac eithrio wrth ymarfer eu swyddogaethau disgyblu mewn perthynas â honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff.

4.6 Lle bo coleg yn darparu addysg a neu hyfforddiant ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed sydd ar gofrestr ysgolion uwchradd, bydd y Pennaeth priodol wedi ei gefnogi gan y Swyddog Diogelu yn cysylltu â'r ysgol a/neu'r Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau fod gweithdrefnau priodol yn eu lle petai datgeliad diogelu yn cael ei wneud i aelod o staff y coleg.

4.7 Mae gan yr holl aelodau o staff ddyletswydd gyfreithiol i roi gwybod am unrhyw ddatgeliad, honiad neu amheuaeth o gamdriniaeth neu risg o niwed arwyddocaol i'r Swyddog Diogelu. Rhaid gwneud hyn ar unwaith. Rhaid cwblhau ffurflen ddatgelu Diogelu a'i rhoi i'r Swyddog Diogelu ar gyfer ei gofnodion.

4.8 Dylai rhieni/gofalwyr gael eu hysbysu fod achos yn mynd i gael ei gyfeirio at Wasanaethau'r Plant oni bai y gallai eu hysbysu yn ei hunan roi'r plentyn mewn perygl e.e.

- Lle bo amheuaeth neu ddatgelu achos o gamdriniaeth rywiol
- Lle bo salwch ffug neu wedi ei achosi yn cael ei amau
- Lle bo ofnau am ddiogelwch plant neu eraill wrth hysbysu rhieni/gofalwyr
- Lle na fo yn bosib cysylltu yn syth â'r rhieni/gofalwyr a lle bo gweithredu cyflym yn ofynnol i sicrhau diogelwch y plentyn.

4.9 Dylai unrhyw benderfyniad i beidio â hysbysu'r rhieni/gofalwyr gael ei gofnodi ar ffurflen gyfeirio'r Gwasanaethau Plant, gyda'r rhesymau dros benderfyniad o'r fath.

4.10 Rhaid hysbysu'r Prif Swyddog Diogelu Dynodedig am unrhyw ymholiad sy'n ymwneud â Prevent er mwyn cyfeirio'r mater i sylw asiantaeth allanol briodol.

4.11 Rhaid i les y plentyn/plant/oedolyn agored i niwed gan gynnwys lles unrhyw blentyn arall a all fod mewn perygl, bob amser gymryd blaenoriaeth dros gyfrinachedd. Ni ellir gwneud addewid i beidio â weud wrth neb am fanylion datgeliad lle bod plant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth sylweddol o dan unrhyw amgylchiadau.

4.12 Bydd unrhyw rannu o wybodaeth berthnasol o fewn amgylchedd o gyfrinachedd caeth. Cedwir cofnodion canolog gan y Cyfarwyddwr, Profiad y Dysgwr ac yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data. Rhaid glynu at unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu, Uned Amddiffyn yr Heddlu bob amser.

4.13 Mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi'i ddynodi fel 'awdurdod penodol' ac, o dan gyfarwyddyd y Ddyletswydd Prevent, mae'n ofynnol iddo enwebu Pwynt Cyswllt Unigol penodol y gall yr Heddlu, WECTU ac asiantaethau allanol gysylltu ag ef.

4.14 Fel rheol mae'r Pwynt Cyswllt Unigol penodol yr un enwebai â'r Swyddog Diogelu Dynodedig ac mae'n ymgymryd â'r un rôl arweiniol mewn codi ymwybyddiaeth o Prevent a sicrhau ymgysylltu gweithredol ymhlith y staff a'r dysgwyr. Y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau i Ddysgwyr, sy'n ymgymryd â'r rôl hon yn Grŵp Llandrillo Menai.

4.15 Mae'r meysydd cyfrifoldeb mewn perthynas â'r Ddyletswydd Prevent yn cynnwys y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau yn ymwneud Prevent ymysg pob aelod o staff.
- Cysylltu â thiwtoriaid ynghylch y defnydd o adnoddau tiwtorial a chyfeirio at Prevent er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr.
- Cefnogi gweithgareddau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Prevent
- Cysylltu ag Uned Eithafiaeth a Gwrth Derfysgaeth Cymru (WECTU) a'r Heddlu ynghylch dysgwyr sy'n peri pryder
- Cysylltu ag awduron polisïau'r Grŵp i sicrhau bod cyfeiriad at Prevent fel sy'n briodol
- Monitro'r broses Siaradwyr Allanol
- Cysylltu â rheolwyr i wneud yn siŵr bod staff yn dilyn hyfforddiant priodol.
- Sicrhau bod yr adroddiadau monitro a hunanasesu'n cael eu cwblhau a'u cyfeirio at sylw'r pwyllgor priodol.
- Cynrychioli Grŵp Llandrillo-Menai ar Fforwm Prevent AU ac AB Gogledd Cymru

5 Ymateb i Ddatgeliad

5.1 Lle gwneir datgeliad o gamdriniaeth neu risg o niwed sylweddol i aelod o staff, rhaid i'r aelod o staff roi gwybod am y datgeliad i Swyddog Diogelu yn syth (neu geisio rhoi gwybod amdano o fewn 4 awr) a gweithredu'r weithdrefn ddiogelu. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at gamau disgyblu.

5.2 Dylid trin gwybodaeth yn ymwneud â chamdriniaeth wirioneddol, neu amheuaeth o hynny, gyda'r gofal mwyaf. Bydd y Swyddog Diogelu yn sicrhau fod y wybodaeth ond yn cael ei rannu gyda'r staff hynny sydd angen bob yn ymwybodol ohono. Ni ddylid rhoi mwy o wybodaeth i neb nag sydd yn angenrheidiol i gefnogi'r person ifanc neu oedolyn agored i niwed.

5.3 Gall unrhyw aelod o staff neu ddysgwr ddatgan pryderon am aelodau eraill o staff a dysgwyr sy'n agored i risg o gael eu denu at eithafiaeth, yn seiliedig ar wybodaeth maent wedi'i derbyn neu ymddygiad mae ef neu unigolyn arall wedi'i weld. Oni bai fod bygythiad uniongyrchol i fywyd neu niwed, dylid rhoi gwybod am bob pryder i Swyddog Diogelu. Mewn achosion ble ceir bygythiad uniongyrchol, dylid dilyn y Gweithdrefnau Diogelwch, Sicrwydd ac Argyfwng.

5.4 Lle y gwneir honiad yn erbyn aelod o staff dylid cyfeirio'r honiad yn syth at y Pennaeth. Ni fydd y Pennaeth yn ymchwilio i honiad o gamdriniaeth. Bydd asesiad cychwynnol yn cael ei wneud gan y Pennaeth a'r Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a fydd yn penderfynu a fydd cyfeiriad Rhan 4 yn cael ei wneud o dan Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008.

6 Adolygiad Diogelu

Trafodir pob achos o gyfeirio at Ddiogelu yn yr adolygiadau achos cleient misol sy'n cael eu galw gan y Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr priodol. Mae Mentoriaid a staff Cwnsela'n cyfarfod i drafod canlyniad y gefnogaeth a'r cyfeirio sydd wedi'i wneud i asiantaethau allanol. Mae hyn yn galluogi rhannu arferion da ymhlith y tîm gweithredol gan roi cyfle hefyd i reolwyr asesu manylrwydd y cyfeirio at yr Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol.

7 Recriwtio Staff

Mae gan y coleg drefniadaethau recriwtio a dewis wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer staff sydd yn cefnogi diogelu a hybu lles pobl ifanc. Mae ymarfer recriwtio teg a diogel yn cyd-fynd â chyfrifoldebau deddfwriaethol yn Atodlen 4 y Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregys 2006 a ddiweddarwyd gan y Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 ac i gyd-fynd â gweithdrefnau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff pob aelod o staff eu recriwtio yn unol â pholisi a gweithdrefnau Grŵp Llandrillo Menai dan oruchwyliaeth Cyfarwyddiaeth AD.

8 Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddi Staff

8.1 Hysbysir pob aelod o staff newydd o'u dyletswyddau diogelu a darperir copi iddynt o'r Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu yn ystod eu rhaglen gynefino.

8.2 Mae hyfforddiant diogelu yn orfodol ar gyfer yr holl staff. Cyflwynir hyfforddiant drwy gyfrwng modiwlau ar-lein a sesiynau a hwylusir ar gyfer pynciau penodol. Bydd rhaglen dreigl o hyfforddiant staff yn cael ei darparu yn fisol a bydd yn cylchdroi rhwng safleoedd. Dylai pob aelod newydd o staff ddilyn modiwlau Diogelu a Prevent o fewn mis o ddechrau ar eu dyletswyddau.

8.3 Bydd pob swyddog diogelu yn dilyn hyfforddiant dan ofal Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.

Grŵp Llandrillo Menai

Mae gan aelod o staff bryder ynghylch diogelu neu'n amau digwyddiad o niwed difrifol neu wedi derbyn datgeliad. Gwiriwch os yw'r myfyriwr angen gofal meddygol brys a rhowch y sylw priodol.
Dylai staff gysylltu â Jamie Clegg, Cyfarwyddwr AD os yw'r mater sy'n peri pryder neu'r datgeliad yn cyfeirio at aelod o staff y Coleg neu Gontractwr.
Rhaid hysbysu eich pennaeth ar unwaith os yw'r datgeliad yn ymwneud â phlentyn ysgol.

Ffonio'r Swyddog Diogelu (SD) ar unwaith.

Aelod o staff yn cofnodi'r pryder / trafodaeth / digwyddiad gan gwblhau ffurflen datgeliad y coleg sydd ar gael ar Borth y Grŵp.

Anfon copi o'r nodiadau, cofnodion perthnasol o'r digwyddiad at y Prif Swyddog Diogelu (PSD).

Penderfyniad y Swyddog Diogelu (SD) i beidio â chyfeirio.

Swyddog Diogelu yn trafod gyda'r Prif Swyddog Diogelu (PSD). Cadw cofnodion.

Swyddog Diogelu (SD) yn penderfynu cyfeirio at yr asiantaeth briodol.

Mae'r Swyddog Diogelu (SD) yn cwblhau cyfeirebau asiantaeth allanol a gwybodaeth berthnasol arall gan ddilyn gweithdrefnau cyfeirio Diogelu Plant neu Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

Mae'r holl waith papur yn cael ei basio ymlaen at y Prif Swyddog Diogelu

Mae cyflogwr dysgu seiliedig ar

Gweithdrefnau Diogelu Plant / Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed i'w hymchwilio gan y Gwasanaethau

Bydd PC Gwasanaethau i Ddysgwyr neu'r Swyddog Diogelu yn cysylltu gydag asiantaethau allanol lle bydd gweithredu pellach a monitro lle bo'n briodol.

Hysbysir staff fel y bo'n briodol.

Tîm Diogelu

Coleg Llandrillo a Dysgu Seiliedig ar Waith

Lisa Johnson
Prif Swyddog Diogelu
Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr
01492 546 666 est 1422
07901 348 762

Tamlyn Cassidy
Swyddog Diogelu
Lles Dysgwyr
01492 546 666 est 1531
07515 329 059

Coleg Meirion-Dwyfor

Philip Jones
Prif Swyddog Diogelu
Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr
01248 370 125 est 3261
07580 181 729

Mererid Davies
Mentor Lles neu
01341 422 827 est 8488

Coleg Menai

Philip Jones
Prif Swyddog Diogelu
Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr
01248 370 125 est 3261
07580 181 729

Sharon O'Connor
Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Grŵp
01248 370125 est 3556
07715 802 708

Dysgwyr ILS yn unig

Coleg Llandrillo:
Jane Myatt
Rheolwr y Maes Rhaglen ILS
01492 546 666 est 1401

Coleg Meirion-Dwyfor:
Rona Lewis
Pennaeth Cynorthwyol
01341 422 827 est 8626

Coleg Menai:
Eifiona Williams
Rheolwr y Maes Rhaglen ILS
01248 370 125 est 2266

Prif Swyddog Dynodedig a phwynt cyswllt Prevent, GLLM

Samantha Mcilvogue